**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **5 Tachwedd 2014**

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady**

**Awdur yr Adroddiad:** **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd**

**Teitl:** **Proses y Gyllideb 2015/16**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried y diweddariad diweddaraf a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Ers y diweddariad diwethaf, mae proses y gyllideb wedi symud i'w ail gam (mae Atodiad 1 yn dangos proses y gyllideb er mwyn cyfeirio ato).

Mae'r tabl o ddigwyddiadau allweddol yn y broses ac yn cael ei ddangos isod:

***Tabl 1 Digwyddiadau Allweddol***

| Digwyddiadau allweddol | Dyddiadau | Statws |
|---|---|---|
| Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | 15 Ebrill 2014 | Cwblhawyd |
| Briffio'r Cyngor | 28 Ebrill | Cwblhawyd |
| Rownd Gyntaf Cyfarfodydd Cyllideb gyda Gwasanaethau | 7 Mai – 4 Awst | Cwblhawyd |
| Diweddariad i Friffio'r Cabinet | 12 Mai | Cwblhawyd |
| Adolygiad UDG o'r Broses | 19 Mai | Cwblhawyd |
| Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | 21 Mai | Cwblhawyd |
| Diweddariad i Friffio'r Cabinet | 2 Mehefin | Cwblhawyd |
| Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | 2 Gorffennaf | Cwblhawyd |
| Diweddariad i'r UDA | 3 Gorffennaf | Cwblhawyd |
| Diweddariad i Friffio'r Cabinet | 7 Gorffennaf | Cwblhawyd |
| Gweithdy Cyllideb Cyntaf i'r Aelodau | 9 Gorffennaf | Cwblhawyd |
| Yr Ail Weithdy Cyllideb i'r Aelodau | 14 Gorffennaf | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Trydydd Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **26 Awst** | **Cwblhawyd** |
| **Gweithdy Ychwanegol os oes ei Angen** | **28 Awst** | **Dim angen** |
| **Y Pedwerydd Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **2 Medi** | **Cwblhawyd** |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **3 Medi** | **Cwblhawyd** |
| **Cyngor Sir** | **9 Medi** | **Cwblhawyd** |
| **Y Pumed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **22 Medi** | **Cwblhawyd** |
| **Cynigion cam 2 a ddatblygwyd gan wasanaethau** | **Medi / dechrau Hydref** | **Cwblhawyd** |
| **Diweddariad i Friffio'r Cabinet** | **22 Medi** | **Cwblhawyd** |
| **Diweddariad i'r UDA** | **2 Hydref** | **Cwblhawyd** |
| **Diweddariad i Friffio'r Cabinet** | **6 Hydref** | **Cwblhawyd** |
| **Y Chweched Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **8 Hydref** | **Cwblhawyd** |
| **Y Seithfed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **13 Hydref** | **Cwblhawyd** |
| **Yr Wythfed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **20 Hydref** | **Cwblhawyd** |
| **Y Nawfed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **27 Hydref** | **Gwahoddiadau wedi'u hanfon** |
| **Diweddariad i Friffio'r Cabinet** | **3 Tachwedd** | |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **5 Tachwedd** | |
| **Diweddariad i Friffio'r Cabinet** | **8 Rhagfyr** | |
| **Cyngor Sir** | **9 Rhagfyr** | |
| **Y Degfed Gweithdy Cyllideb i'r Aelodau** | **12 Rhagfyr** | **Gwahoddiadau wedi'u hanfon** |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **17 Rhagfyr** | |
| **Cyngor Sir** | **3 Chwefror 2015** | |

Daeth y rownd gyntaf o weithdai cyllideb gydag aelodau etholedig i ben ar 22 Medi. Cafodd y papurau ar gyfer pob gweithdy eu cyhoeddi ymlaen llaw yn electronig ac ar ffurf copi caled. Roedd llawer yn bresennol yn y gweithdai gydag ystod eang o drafodaeth yn digwydd a nifer o gwestiynau yn cael eu gofyn. Gofynnwyd i Aelodau fynegi barn ynghylch a ddylai cynigion arbed gael eu 'mabwysiadu', eu 'datblygu', neu eu 'gohirio'. Yn ogystal, cafodd aelodau weld cyllideb pob gwasanaeth ar sail tudalen wrth dudalen ac fe'i gwahoddwyd i roi sylwadau ar bob un. Cafodd nifer o gynigion y nododd yr aelodau y buasent yn fodlon eu mabwysiadu eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo ar 9 Medi. Roedd y cynigion a gymerwyd i'r cyngor fel arbedion Cam 1 yn gyfanswm o £3.7m ar gyfer 15/16 ac yn £870k ar gyfer 16/17.

Roedd strategaeth cyllideb y cyngor wedi nodi bwlch o hyd at £18m yn y gyllideb dros ddwy flynedd yn flaenorol. Roedd hyn yn cael ei lywio'n bennaf gan ddangosyddion y byddai setliad cyllid y cyngor yn cael ei dorri o 4.5%. Cyhoeddwyd Setliad Drafft Llywodraeth Leol ar 8 Hydref. Mae'r Setliad yn nodi

y bydd y gostyngiad arian parod i gyllideb y cyngor yn 3.7% sy'n cyfateb i £5.3m.Gyda'r pwysau costau sydd gan y cyngor i'w ariannu, fel tâl, pensiynau a chynnydd mewn ynni ac ati, mae'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer 2015/16 bellach yn tua £8.2m ac amcangyfrifir y bydd yn tua £8.8m yn 2016/17.

Mae ail gam proses y gyllideb bron yn gyflawn bellach, gyda gweithdy terfynol Cam 2 i aelodau wedi'i drefnu ar gyfer 29 Hydref. Hyd yn hyn, mae aelodau wedi nodi cynigion sy'n rhoi cyfanswm o £3.2m ar gyfer 2015/16 ac £1.8m ar gyfer 2016/17 a gymerir i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr. Os caiff pob un o'r cynigion a gymerir i'r gweithdy terfynol ym mis Hydref eu hargymell i'w cymeradwyo, yna bydd y cyfanswm yn £4.0m ar gyfer 2015/16 a £2.1m ar gyfer 2016/17 o Gam 2.

Caiff cynigion Cam 2 eu cyflwyno i'r cabinet i ddechrau ac yna eu hargymell i'r cyngor i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr.

Bydd Cam 3 o broses y gyllideb yn ystyried cynigion terfynol i gydbwyso cyllideb 2015/16, gan gynnwys opsiynau ar gyfer Treth y Cyngor ac unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn. Caiff y materion hyn eu trafod yn y gweithdy i aelodau ym mis Rhagfyr cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol ym mis Chwefror. Bydd Cam 3 o'r broses hefyd yn parhau i ddatblygu opsiynau ar gyfer arbedion yn 2016/17.

Mae ymgynghoriad ar effaith y toriadau yn y gyllideb wedi dechrau ac mae'n cynnwys yr holl aelodau etholedig, staff, preswylwyr a Chynghorau Tref a Chymuned.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Efallai y bydd angen i'r cyngor sicrhau arbedion o tua £17m dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd AEaG yn cael ei gwblhau ar gyfer yr holl gynigion perthnasol wrth i'r broses ddatblygu.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae'r broses wedi cael ei ystyried gan yr UDG, UDA, Briffio'r Cabinet, Briffio'r Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus ehangach ar effaith y gyllideb ar ddiwedd mis Hydref.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd hon yn broses heriol iawn gyda rhai penderfyniadau a fydd yn anodd ei gwneud ar hyd y ffordd. Mae ymrwymiad a chefnogaeth aelodau etholedig yn y broses o wneud penderfyniadau ac archwilio'r broses yn hanfodol.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.